# Bangor

**Pellter:** 5.2km / 3.2 milltir
**Anhawster:** hawdd
**Amser cerdded:** 1.5 awr

Caffis a thoileadau yng nghanol y dref a hefyd ar y pier.

Dim Camfeydd

Mae'r llwybr hwn yn dilyn palmentydd a llwybrau tarmac at y Pier. Golygfeydd da dros afon Menai ar ran helaeth o'r llwybr.


1. Ewch allan o'r orsaf a dilyn y ffordd i'r chwith i fyny'r allt. Heibio'r safle bws, cymerwch y troad cyntaf i'r chwith o'r enw Lôn Cwfaint. Dilynwch y lôn i fyny'r allt, heibio'r ysgolion ac ymhen amser fe ddewch allan ar y briffordd wrth ymyl Coleg Menai a Neuaddau Llety'r Brifysgol.

2. Trowch i'r dde, yna ewch i'r chwith ar ôl yr adeiladau llety. Bydd hyn yn mynd â chi i fyny'r allt ar Barc Fictoria. Mae'r ffordd yn gwyro i'r chwith a heibio maes parcio'r staff a'r Coleg Rhyngwladol. Dilynwch y ffordd i'r dde, a dilyn Rhodfa Menai i lawr yr allt at ffordd Caergybi a golygfa o Afon Menai.

3. Pan fyddwch yn cwrdd â'r briffordd, trowch i'r dde a chymryd y ffordd leiaf tua'r chwith. (Ffordd Siliwen) Mae'r ffordd hon yn eich arwain yr holl ffordd at y Pier. Mae rhai ardaloedd hyfryd o barcdir lle gallwch ddod oddi ar y ffordd am ychydig ac mae meinciau i chi gael hoe.

4. Mae toiledau cyhoeddus ger y pier. Codir tâl mynediad bychan ar oedolion i fynd ar y pier ei hun. Am ddim i blant.

I ddychwelyd, dilynwch yr un llwybr yn ôl i'r orsaf.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.